Glandŵr Cymru

Mae treftadaeth dyfrffyrdd Cymru yn un gyfoethog a gwych, maent yn hafan i fywyd gwyllt toreithiog ac mae ganddynt botensial anferth i helpu i adfywio bywyd economaidd a chymunedol. Mae Glandŵr Cymru wedi rhoi cyfle gwerthfawr i ni hyrwyddo potensial iechyd a lles y dyfrffyrdd i bobl a Llywodraeth Cymru.

Uchod: Ymwelwyr a Fforwyr Glandŵr yn Sioe Frenhinol Cymru

Roedd ein lansiad yn Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte ym mis Gorffennaf yn ddathliad trawiadol a llwyddodd i atgoffa pawb o harddwch a rhyfeddod ein dyfrffyrdd. Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio er mwyn sicrhau bod ein gweledigaeth yn cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru, anghenion busnesau a chymunedau.

Aethom i Sioe Frenhinol Cymru a chynnal derbyniad yn y Senedd er mwyn cyflwyno'r elusen newydd i aelodau'r cyhoedd ac Aelodau'r Cynulliad am y tro cyntaf. Yn sgil ein prosiect Partneriaeth Cymru Gyfan, mae gennym bellach eiriolwyr sy'n hyrwyddo ein hachos gydag arweinwyr barn a'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau mewn busnesau, mewn grwpiau cymunedol ac yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rydym wedi bod wrthi hefyd yn codi proffil dyfrffyrdd Cymru ar lefel Ewropeaidd drwy'r rhaglen Interreg IVC, Waterways Forward. Daeth 17 o bartneriaid o 11 o wledydd yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal â Serbia a Norwy ynghyd fel rhan o'r rhaglen hon, er mwyn ymchwilio i fanteision amrywiol dyfrffyrdd mewndirol, o'u cysylltu â datblygiadau cynaliadwy ehangach yr ardaloedd maent yn llifo drwyddynt. Rydym bellach yn ystyried sut y gallwn, gyda'n gilydd, godi proffil a chynyddu dylanwad dyfrffyrdd a llynnoedd mewndirol a chynyddu'r manteision a ddaw yn eu sgil i bobl ac i lefydd.

Gwneud camlesi'n fwy hygyrch

Mae sicrhau bod ein camlesi'n hygyrch i bawb yng Nghymru yn un o'n blaenoriaethau. Gyda'n partneriaid, rydym yn uwchraddio cyflwr ein llwybrau tynnu er mwyn annog mwy o bobl i ymweld â'r dyfrffyrdd a'u mwynhau. Buddsoddodd Cyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru £204,000 er mwyn cwblhau 2.5 cilometr o'r llwybr tynnu rhwng Aberriw a Brithdir.

Erbyn hyn, mae dros hanner y llwybrau tynnu o safon uchel. Ym mis Mawrth 2013, sicrhawyd £200,000 yn rhagor er mwyn cwblhau'r ddolen goll o 2.7 cilometr rhwng y Drenewydd a'r Trallwng. Bydd 6 cilometr o lwybr tynnu, rhwng Llangatwg a Llangynidr ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, yn elwa o fuddsoddiad o £105,000 gan y rhaglen "Llwybrau Diogel mewn Cymunedau" Llywodraeth Cymru.

Buddsoddi yng Nghymru

Rydym wedi buddsoddi bron i £1.9 miliwn yn ein camlesi yng Nghymru, sydd lawer yn uwch na'n gwaith cynnal a chadw a'n gwaith cadwraeth rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys £1.2 miliwn yn ail-leinio 460 metr o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yn dilyn gwaith atgyweirio brys yn ystod yr haf, yn ogystal â charthu a thrwsio Dyfrbont Ddŵr Pontardawe.

Fis Rhagfyr, yn goron i'r flwyddyn, buom yn dathlu deucanmlwyddiant Camlas Mynwy ac Aberhonddu gyda'r olaf o 65 o ddigwyddiadau cymunedol. Roedd y dathliadau'n cynnwys 88 o bartneriaid gan ddwyn ynghyd cymunedau lleol ar hyd y gamlas. Bydd gwaddol y dathliadau yn cynnwys mwy o gydweithio ar fwy o ddigwyddiadau a phrosiectau eraill eleni ac yn y blynyddoedd i ddod, gan ddwyn ynghyd cymunedau a denu pobl newydd i'r gamlas. Drwy wneud hyn, byddwn yn sicrhau bod ein dyfrffyrdd yn parhau mor berthnasol i gymunedau heddiw ag yr oeddynt pan gawsant eu hadeiladu.

Top: Dyfrbont Pontcysyllte

Uchod: Camlas Maldwyn